Cofnodion Cyngor nos Iau Gorffennaf 12 2023 am 7pm
Presennol: E.R.Noble, C.Brewer, T.W.Jones, C.L.Price, Liz Roberts.
Ymddiheuriadau: M.Skerrett, I.W.Griffiths, M.L.Hughes.
Datgan Diddordeb. Dim
Cofnodion. Cyfeiriodd Liz Roberts at yr angen i ystyried paentio'r gysgodfan bws ger Sgwar y pentref - Aelodau i feddwl am enwau posibl i'r Clerc gael cysylltu â hwy. Wedi nodi'r sylw hyn cadarnhawyd cofnodion Cyngor Gorffennaf 12 cynnig E.R.Noble, cefnogi Liz Roberts.

Heddlu. Derbyniwyd llythyr gan P.C.Jessica Williams Swyddog Cefnogi Cymuned Heddlu, hi yw'r PCSO ar gyfer ymgyrch 'We Don't Buy Crime' ar gyfer Conwy Wledig, byddant yn cefnogi'r ymgyrch newydd mewn sawl ffordd fydd yn cynnwys cynnal digwyddiad ym mhob cymuned, hyn i ddigwydd yn ystod yr wythnos neu benwythnos

Yr A470. L.Roberts wedi derbyn gwybodaeth yn cadarnhau bydd yr arwydd 30mya yn cael ei symud tuag at Blaenau Ffestiniog ac yn cael ei leoli ger 'man aros' Pont Arenig gydag arwyddion 30mya newydd a marciau addas ar y ffordd yn cael ei gosod yno. Bydd hyn yn rhoi mwy o rybudd i yrrwyr eu bod ar fin cyrraedd y pentref.
Yn dilyn cyflwyno'r 20mya bydd cyflymder ceir yn cael ei fonitro ac angen arwydd newydd fydd yn cael ei weithredu gan gyflymder car yn cael ei osod i fonitro ac assesu cyflymder.
Nodwyd y dylid ystyried cael arwyddion 20mya hefyd hyd Stryd yr Eglwys, Stryd y Bont a Maes y Braich.

Cyngor Sir. Dal dim ymateb gan B.Shiland am gyflwr Pont yr Afon na'r wal ar hyd Stryd y Bont, Clerc i anfon i nodi hyn at Andrew Wilkinson. Rhwystrau cryfion wedi ei gosod ar Allt Singrig.
Neges gan M.Skerrett yn cadarnhau bod arwyddion 'Dim ffordd trwodd' wedi eu gosod ar y 'ffordd gefn' ym Mhont y Pant, ni wyddai os oedd rhai wedi ei gosod ochr yr Hendre..

Pontydd yn yr Ardal. Clerc wedi cysylltu â Bryn Shiland am ddiweddariad, dim ymateb hyd yma.

Cynlluniau.
Dulas Maes y Llan. Dim ymateb.
Pont Sarn Ddu. Dim ymateb.
Bryn Teg. Dim ymateb.
9 Maes y Llan: Dim ymateb

Llifogydd. L.Roberts am drefnu cyfarfod i drafod hyn, fe wnaiff hi gadarnhau y manylion.

Scottish Power. Liz Roberts wedi cyfarfod ac arweinydd Tîm Newydd NRW oedd wedi cadarnhau y dylai gwaith ddechrau ym mis Awst 2023 yn ddibynnol ar y sefyllfa gydag adar yn nythu ac ati, buasai hynny yn oedi cael cychwyn ar y gwaith.

Toiledau. Clerc yn hyderus bydd popeth yn iawn adeg gwyliau Zac, mae Zac yn gobeithio ei fod wedi cael rhywun wnaiff wneud y gwaith glanhau yn ei le. Y peiriant 'dwr oer' ar wal y toiledau wedi cael ei atgyweirio, diolchwyd i L.Roberts am gysylltu gyda Gary Williams CBSC i drefnu'r gwaith atgyweirio. Gan fod CBSC wedi trefnu i gael cynllun talu gyda cerdyn gyda cwmni newydd tebyg bydd angen i'r Cyngor lleol dalu amdano, Clerc i drafod gyda Gary Williams CBSC.

Y Gofgolofn. Dywedodd C.Brewer fod cyfeillion Dolwyddelan yn ei Blodau wedi bod ar waith ar y safle yn ddiweddar. Julie, Bron Haul wedi rhoi bil i'r Clerc i dalu am y

planhigion ac ati. Cadarnhaodd y Clerc fod Mark Woodward wedi cynnig paentio'r rheiliau, cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi diolch iddo a chadarnhau y buasai'r Cyngor yn talu am y paent.

Gwaith yn y Fynwent. Deallwyd fod pryder nad oedd un o'r giatiau yn 'gorwedd' yn iawn, aelodau wedi cael golwg, cysylltu hefo Iwan? Y sefyllfa gyda'r tyllau yn y ffordd sydd yn llenwi gyda dŵr heb ei datrus. Diolchwyd i Liz Roberts a C.Brewer am ei gwaith parhaol gyda'r cynlluniau.
Roedd y Clerc wedi cysylltu â sawl Cyngor Cymuned yn yr ardal i holi am ei costau claddu hwy, wedi ystyried y ffigyrau yn fanwl cytunwyd i godi'r tâl prynu bedd a gosod carreg fedd i bobl leol i £300 ac i £650 i rai o'r tu allan i'r pentref, cynnig E.R.Noble cefnogi L.Roberts a phawb o blaid.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig C.Brewer, cefnogi C.L.Price a pawb o blaid.

Llysiau'r Dial. Deallwyd fod y tir wedi ei werthu.

Sgip. Clerc wedi trefnu ymweliad sgip ar gyfer Gorffennaf. .

Diffibriliwr. Liz wedi trafod y posibilrwydd o gael Diffibriliwr yng Ngorsafoedd tren Pont y Pant a Roman gyda Mel Lawton ac yn disgwyl am ymateb ganddi.

Gwasanaeth Bysiau. Deallwyd gan Liz Roberts ei bod wedi cael trafodaethau fanwl gyda tim trafnidiaeth CBSC i ofyn iddynt drafod trefnu cael Gwasanaeth Bws Fflexi ar gyfer yr ardal, roedd hi'n eithaf hyderus y bydd hyn yn digwydd.

Blodau hyd ochr yr A470. E.Roberts wedi gosod blodau newydd yn y cafnau hyd ochr y ffordd ac maent yn edrych yn dda iawn.

Tai Tanrallt. L.Roberts yn gobeithio cael ymweld â'r tai gyda'r Swyddog Tenantiaid - deallwyd fod gwaith atgyweirio i gymryd lle ar y safle.

Man aros Pont Arenig. Clerc i gysylltu â CADW i holi oes posibilrwydd o gael arwydd dwyieithog yn nodi fod Toiledau cyhoeddus yn y pentref.

Coed hyd ochr y ffordd ger Pont yr Orsaf. Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir i gael torri brigau'r coed sy'n tyfu i'r ffordd.

Cyfarfod nesaf. Cytunwyd i gyfarfod nesaf nos Iau Medi 14.